Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Hyfforddwr Gyrfaoedd (Ehangu Llwyddiant)** |
| **Lleoliad:** | **Campws Cyncoed a Llandaf** |
| **Adran:** | **Gwasanaethau Myfyrwyr a Chyflogadwyedd** |
| **Oriau:** | **29.6 awr yn wythnos (0.8 CALI) yn cynnwys gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau achlysurol.** |
| **Daliadaeth:** | **Tymor penodol tan 31 Rhagfyr 2025** |
| **Cyflog:** | **£33,966 - £37,099 y flwyddyn pro rata** |
| **Yn atebol i:** | **Cydlynydd Tîm Ehangu Llwyddiant** |

### Crynodeb o'r Rôl:

Mae hon yn swydd allweddol a fydd yn cyfrannu at uchelgeisiau Cynllun Strategol y Brifysgol 2017/18 - 2022/23.

Gweithio fel rhan o Dîm Ehangu Llwyddiant a ariennir gan CCAUC, sy'n gyfrifol am gyflawni cynllun busnes Cymorth Cyflogadwyedd i Fyfyrwyr 2022/23 trwy ddarparu cyfres gynhwysfawr o wasanaethau gyrfaoedd a chyflogadwyedd wedi'u teilwra i fyfyrwyr a graddedigion a allai fod yn wynebu rhwystrau ychwanegol i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd gwaith.

Cefnogi myfyrwyr a graddedigion drwy amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys apwyntiadau hyfforddi un i un a gweithdai grŵp. Cydweithio ag academyddion a staff gwasanaethau proffesiynol i hyrwyddo gwaith y Tîm Ehangu Llwyddiant, cynhyrchu atgyfeiriadau myfyrwyr a nodi cyfleoedd i wella addysg gyrfaoedd a chyflogadwyedd ar draws y brifysgol, gan gefnogi gwella deilliannau lefel graddedigion yn y pen draw.

### Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

1. Hyrwyddo gwaith y tîm Ehangu Llwyddiant ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd drwy gysylltu â staff y gwasanaethau academaidd a phroffesiynol i gynhyrchu atgyfeiriadau.
2. Cefnogi'r Ymgynghorydd/Ymgynghorwyr Gyrfaoedd o fewn o leiaf un Ysgol benodol, gan sicrhau bod staff a myfyrwyr yn gallu manteisio ar gymorth ac adnoddau priodol sy'n gysylltiedig ag ehangu llwyddiant.
3. Gweithio mewn cydweithrediad â'r timau Cyflogadwyedd mewn Ysgolion, gan gyfrannu'n rhagweithiol at gyfarfodydd perthnasol, digwyddiadau a mentrau eraill sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd.

4. Hyrwyddo gwasanaethau'r Tîm Ehangu Llwyddiant i fyfyrwyr a graddedigion drwy sianeli marchnata priodol, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.

5. Dylunio, cyflwyno a/neu gyfeirio myfyrwyr at ymyriadau gwella cyflogadwyedd, gan olrhain cynnydd yn erbyn contract hyfforddi y cytunwyd arno. Bydd y gweithgareddau'n cynnwys;

    a. hyfforddi a mentora gyrfaoedd

    b. cyflwyniadau a gweithdai sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a chyflogadwyedd

    c. rhaglenni paratoi cyflogaeth a meithrin hyder;

    d. trefnu cyfleoedd profiad gwaith byr, di-dâl ac interniaethau Ehangu Mynediad

6. Rheoli llwyth achosion gan sicrhau bod pob myfyriwr neu fyfyriwr graddedig yn cael y budd mwyaf posibl o'r berthynas hyfforddi.

7. Dod o hyd i gysylltiadau cyflogwyr a'u cynnal i gefnogi'r gwaith o ddarparu gweithdai, profiad gwaith ac interniaethau penodol i'r sector ar gyfer myfyrwyr a graddedigion sy'n gymwys i gael cymorth gan y Tîm Ehangu Llwyddiant.

8. Cadw at unrhyw bolisïau iechyd a diogelwch canolog sy'n gysylltiedig â myfyrwyr neu raddedigion sy'n cwblhau profiad gwaith neu interniaethau.

9. Datblygu gwybodaeth yn rhagweithiol am faterion sy'n ymwneud ag ehangu llwyddiant a chael y wybodaeth ddiweddaraf am dirwedd graddedigion a'r farchnad swyddi.

10. Cefnogi Cydlynydd y Tîm Ehangu Llwyddiant i baratoi adroddiadau cynnydd fel sy'n ofynnol gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd a'r corff cyllido allanol.

11. Creu a datblygu adnoddau ffisegol ac ar-lein sy'n hyrwyddo'r gwasanaethau Ehangu Llwyddiant ac yn cefnogi myfyrwyr a graddedigion gyda'u datblygiad gyrfaol.

12. Cymryd rhan mewn Diwrnodau Agored, seremonïau graddio a digwyddiadau allweddol eraill i fyfyrwyr yn ôl yr angen.

13. Cydweithio a rhannu arfer gorau gyda chydweithwyr o sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru lle bo hynny'n briodol a chyfrannu at waith AGCAS, corff proffesiynol y Gwasanaethau Gyrfaoedd AU.

14. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill yn unol â chyfarwyddyd Cydlynydd y Tîm Ehangu Llwyddiant o fewn gradd y swydd.

*Hysbysiad Safonol*

**Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu i gyflawni eich contract. Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell.**

**Derbynnir y bydd gan staff unigol sylfaen sgiliau a gwybodaeth arbenigol mewn perthynas â'r rôl y maent wedi cael eu penodi iddi. Yn ogystal â hyn, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn disgwyl y bydd pob aelod o staff yn cyfrannu at weledigaeth ac ethos y brifysgol ac yn ymddwyn mewn modd proffesiynol, cwrtais, sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr/cwsmeriaid bob amser. Dylai pob aelod o staff roi sylw penodol i'w gyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb, ariannol, amgylcheddol a Chynaliadwyedd, adnoddau dynol ac iechyd a diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.**

**MANYLEB Y PERSON**

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd: | Hyfforddwr Gyrfaoedd (Ehangu Llwyddiant) |
| Ysgol/Uned: | Gwasanaethau Myfyrwyr a Chyflogadwyedd |
| | |

* Allwedd
Ff - Ffurflen gais
C - Cyfweliad
P/Cyfl - Prawf/Cyflwyniad

| FFACTORAU | MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL | EU HASESU GAN | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ff* | C * | P/Cyfl* |
| **Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)** | Gradd neu brofiad cyfatebol | ✓ | | |
| **Addysg a Chymwysterau (Dymunol)** | Cymhwyster mewn Rheoli Gyrfaoedd neu gyfwerth<br><br>Cymhwyster cydnabyddedig mewn MOS Office e.e. Arbenigwr MOS | ✓<br><br>✓ | | |
| **Gwybodaeth (Hanfodol)** | Gwybodaeth dda o'r farchnad lafur i raddedigion lleol a chenedlaethol a'i sylfaen sgiliau<br><br>Dealltwriaeth o'r rhwystrau i gyflogadwyedd a wynebir gan grwpiau penodol o fyfyrwyr ac anghenion cymorth dilynol<br><br>Dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio technoleg i gefnogi caffael sgiliau cyflogadwyedd | ✓<br><br>✓<br><br>✓ | | |
| **Gwybodaeth (Dymunol)** | Dealltwriaeth o nodau ac amcanion strategaethau perthnasol Prifysgol Metropolitan Caerdydd a rôl y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn y rhain<br><br>Gwybodaeth am raglenni Metropolitan Caerdydd ac opsiynau gyrfaoedd cysylltiedig<br><br>Gwybodaeth dda am y datblygiadau a'r tueddiadau diweddaraf mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb | ✓<br><br>✓<br><br>✓ | | |
| **Sgiliau a Galluoedd (Hanfodol)** | Y gallu i ddarparu apwyntiadau 1:1 effeithiol sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a chyflogadwyedd i ystod o gleientiaid | ✓ | ✓ | ✓ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Sgiliau rhyngbersonol a meithrin perthnasau | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Dylanwadu ar sgiliau gyda'r gallu i ysbrydoli eraill i weithredu | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Y gallu i egluro materion cymhleth yn glir i ystod o gleientiaid a chydweithwyr ar lafar ac yn ysgrifenedig | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Sgiliau addysgu neu hyfforddi, gyda'r gallu i greu a darparu cynnwys sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd mewn lleoliadau grŵp mawr a bach | ✓ | ✓ | |
| | Yn canolbwyntio ar ddatrysiadau ac yn rhagweithiol wrth ddatrys problemau | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig cryf gyda llygad craff am fanylion a'r gallu i ddadansoddi data | ✓ | ✓ | |
| | Yn angerddol am gyflawni safonau gwaith uchel ac wedi ymrwymo i wella ansawdd yn barhaus | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Sgiliau canolradd ar draws y gyfres MOS | ✓ | ✓ | |
| **Sgiliau a Galluoedd (Dymunol)** | Cynhyrchu cynnwys hyrwyddo o ansawdd uchel ar gyfer llwyfannau cyfryngau cymdeithasol | ✓ | ✓ | |
| **Profiad â thâl/ Di-dâl (Hanfodol)** | Hyfforddi unigolion ar sail 1:1 | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Gweithio mewn amgylchedd sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd neu gyflogadwyedd | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Gweithio gydag unigolion neu grwpiau sydd wedi wynebu rhwystrau ychwanegol i dwf a datblygiad personol | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Datblygu a chynnal perthnasoedd gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys uwch aelodau o staff | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Profiad â thâl/ Di-dâl (Dymunol)** | Cyflwyno darlithoedd addysgol, gweithdai neu weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd mewn lleoliad grŵp | ✓ | | |
| | Defnyddio dull ymgynghorol sy'n cael ei yrru gan ddata i ddylanwadu ar farn ac effeithio ar newid | ✓ | | |
| | Gweithio mewn lleoliad Addysg Uwch | ✓ | | |
| **Gofynion eraill (Hanfodol)** | Dealltwriaeth o gyfle cyfartal sy'n berthnasol i ddarparu cymorth ar gyfer myfyrwyr | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol | ✓ | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gofynion Eraill (Dymunol)**<br><br>**Sgiliau Cymraeg**<br>Gwrando<br>Darllen<br>Siarad<br>Ysgrifennu | **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cfarwydd ac ymadroddion selfaenol iawn yn y Gymraeg. | ✓ | | |